EIS(5)-01-18(p10)

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-KS-4314-17

Russell George AC
Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Russell,

**Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru**

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2017 yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei sylwadau a'i argymhellion sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella tryloywder Banc Cymru yn ystod camau cynnar ei ddatblygiad.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud tri argymhelliad sy'n ymdrin â'r materion isod:

1. Gwella tryloywder yr wybodaeth ariannol yn y cyfrifon blynyddol a'r adolygiad blynyddol;
2. Cyhoeddi’r Achos Busnes ar gyfer Banc Datblygu Cymru;
3. Cynnwys yn y Llythyr Cylch Gwaith ofyniad i'r Banc Datblygu gofio, wrth ymgymryd â gwaith y tu allan i ffiniau Cymru, na fydd hynny'n tanseilio amcanion craidd y sefydliad – sef cefnogi busnesau *yng* Nghymru.

Gallaf gadarnhau ein bod yn derbyn yr argymhellion hyn ac felly rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Giles Thorley, y Prif Weithredwr.

Fodd bynnag, rwyf wedi gwrando ar gyngor swyddogion mewn perthynas ag Argymhelliad 2 ac er fy mod yn hapus i gyhoeddi'r Achos Busnes, mae yna faterion sy'n sensitif yn fasnachol yn y model ariannol a'r taenlenni sy'n ategu'r brif ddogfen. O'r herwydd, nid yw’n briodol i'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi ar hyn o bryd.

Rydych hefyd wedi tynnu sylw yn eich llythyr at feysydd y dylid eu monitro yn y dyfodol, ac mae hynny hefyd yn ddefnyddiol. Rwyf wedi cael sicrwydd bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar y Pencadlys yn Wrecsam ac rydym yn dal i anelu at agor y swyddfa newydd ym mis Ionawr 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Fel y nodwyd gennych, mae Banc Datblygu Cymru yn cydnabod mai'r risg fwyaf sy'n ei wynebu yw na fydd yn codi digon o arian drwy ei weithgareddau i ariannu ei gostau rhedeg ei hun ac mae hwn yn faes y bydd y Banc a fy swyddogion yn parhau i gadw llygad arno.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport